

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

<b>Cofnodion cyfarfod 8 Hydref 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.</b>		
<b>PRESENNOL</b>		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts	Eifion Williams	
Llyr Efans	Cynog Prys	
Lliwen Griffiths-Williams	Gruff John	
Iestyn Harris	Cynghorydd Sir – Gareth Griffiths	
<b>1.0</b>	<b>GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU</b>	
	<p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Croesawyd Lliwedd Griffiths-Williams fel aelod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr, Aled Emyr, Mei Gwilym, Nerys John ag Elliw Williams. Hefyd derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Swyddog Ariannol Wynne Barton ond roedd wedi anfon yr holl adroddiadau angenrheidiol.</p> <p>Gobeithir cynnal sesiwn hyfforddi (induction) i'r cynghorwyr newydd ar yr 22 o Hydref 2019, bydd y dogfennau gwybodaeth angenrheidiol wedi eu hanfon iddynt o flaen llaw.</p>	<b>CLERC</b>
<b>2.0</b>	<b>ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR</b>	
2.1	<p>Dywedodd y Cynghorydd Sir bod wedi derbyn adroddiadau yn ddiweddar gan y Cynghorydd Nerys John ynglŷn â rhwystr i gerbyd tân a gwaith adeiladu oedd yn mynd ymlaen gyferbyn a'r feddygfa. Cafwyd eglurhad gan y Clerc bod tri cherbyd tân wedi ei anfon at y digwyddiad a bod y cyntaf wedi cyrraedd heb drafferth a bod y ddau arall wedi gorfod newid llwybr i gyrraedd y digwyddiad. Mae rhwystr oherwydd cerbydau yn parcio mewn lleoliadau anaddas yn fater sydd yn bodoli mewn pob pentref. Os byddai angen i gerbyd tân farcio'r cerbydau ar gyfer gyrraedd y digwyddiad yna byddem yn gwneud hynny.</p> <p>Ynglŷn â'r mater adeiladu nid oedd llawer oedd Cyngor Gwynedd yn gallu gwneud ond byddent yn cadw llygaid.</p>	
2.2	<p>Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir am y gorr yrru ger Aberpwll a bod cyfrifiad wedi bod yn dangos mesuriad o 39mya mewn ardal 30 mya. Dywedodd bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru er mwyn cael presenoldeb gan Bwyll.</p>	
2.3	<p>Cyfeiriodd hefyd at Gais Cynllunio sydd ger bron y Cyngor heno a'i fod wedi cyflwyno adroddiad i'r Swyddogion Cynllunio Cyngor Gwynedd ei fod am wrthwynebu'r cais a mynd a'r mater i bwyllgor os na fyddai'r Swyddogion yn penderfynu gwrthod y cais beth bynnag.</p>	<b>G.G</b>
2.4	<p>Dywedodd ei fod wedi derbyn cwyn ynglŷn â'r rhes o gerbydau sydd yn parcio a'r ffordd Caernarfon. Cafwyd trafodaeth ar y mater. Mae'r mater yn adnabyddus i'r Cyngor Cymuned oherwydd bod hanes hir iddo. Ar sawl achlysur mae'r Cyngor Cymuned wedi anfon sylwadau I Gyngor Gwynedd ar y mater ac wedi derbyn cyfrifiad oddi wrthynt yn dangos bod gorr yrru ar y safle o 37 m.y.a. mewn</p>	

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	ardal 30 m.y.a.. Mae cais eisoes wedi ei wneud ar gyfer cyflwyno sustem blaenoriaeth yno ond oherwydd diffyg cyllid gwrthodwyd. Penderfynwyd bod y clerc yn anfon unwaith yn rhagor at Gyngor Gwynedd ar y mater a gofyn iddynt ail edrych ar y sefyllfa o beth ellir ei gyflwyno yno. Efallai y byddent yn gallu edrych a'r symud y safle bws i fod ar y lon a defnyddio cilfan aros y bws fel man pasio oherwydd un o'r problemau ynglŷn â pharcio ar un ochr ar y safle yw bod cerbydau ddim yn gallu pasio ei gilydd yn ddiogel oherwydd diffyg lled y lon i ganiatáu dau lif traffig a pharcio.	<b>CLERC</b>
2.5	Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag Air B & Bs yn defnyddio biniau sbwriel cyhoeddus. Nid oedd gan y Cyngor Sir adnoddau i edrych i mewn i finiau ar gyfer gweld os oedd sbwriel domestig yn cael ei roi yn y biniau. Hefyd dywedodd y Cyngorydd Sir bod yr adeiladau ddim yn talu treth busnes oherwydd eu maint. Mae Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i fater Air B & Bs yn y dyfodol agos.	
2.6	Prosiect Lan y Môr - dywedodd y Cyngorydd Sir bod arian efallai ar gael yn gynt na disgwylid a gallai'r prosiect cael ei gychwyn yn gynt. Dywedodd y Clerc bod angen cofnod i ddangos penderfyniad y Cyngor Cymuned a'r un ai cyflwyno ramp neu giât fel rhan o'r mesur i rwystro gorlifiad fel rhan o'r cynllun. Cytunwyd mai giât fyddai orau. Y Clerc I anfon at y Swyddog gyda'r penderfyniad.	<b>CLERC</b>
<b>3.0</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b>	
	Dim	
<b>4.0</b>	<b>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL</b>	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Awst a Medi 2019, derbyniwyd yn gywir.	
4.2	Derbyniwyd Cymhariaeth rhwng y gyllideb drafft a'r gwirioneddol a gwelwyd bod pethau yn mynd fel y rhagamcaniad.	
4.3	Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Allanol oedd yn dangos adroddiad boddhaol ac yn cyfeirio at sylwadau'r Archwilydd Mewnol.	
<b>5.0</b>	<b>CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL</b>	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Medi fel rhai cywir.	
<b>6.0</b>	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
6.1	C18/1148/20/LL – Tŷ Newydd – Min y Nant, Trem y Foel, Y Felinheli LL56 4UZ – <b>GWRTHWYNEBU</b> a'r sil Effaith Gronnol, oherwydd gorr ddatblygiad a'r pryder o effaith andwyol i'r sustem cwrs dwr sydd yn ddiweddar wedi gorlifo a chreu difrod i aneddau cyfagos.	<b>CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio</b>
<b>7.0</b>	<b>PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU</b>	
7.1	Paentio ffenestri cysgodfannau - cyfeiriodd y Clerc at gofnod gan y Cyngorydd Nerys John ei bod wedi anfon at Coleg Menai ynglŷn â cheisio cael y ffenestri wedi eu dylunio a phaentio gan ffyfrwyr dylunio'r coleg - nid oes ymateb wedi dod i law.	<b>NJ</b>
7.2	Meinciau Lan y Môr - cyfeiriodd y Clerc at gofnod gan y Cyngorydd Nerys John am y meinciau, dywedodd y Clerc ei	

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	bod wedi anfon at y swyddog perthnasol yn Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ei ymateb yn dweud bod y meinciau ar restr gwaith i dderbyn sylw dros y gaeaf.	
7.3	Pryderon ynglŷn â rhes o geir sydd yn parcio ar Ffordd Caernarfon - Gweler eitem 2.4	<b>CLERC</b>
7.4	Cafwyd gwybodaeth ddiweddaraf gan y Cynghorydd Daniel Williams ynglŷn â chysgodfan Aberpwll - dywedodd bod adroddiad wedi ei dderbyn ynglŷn â'r coed o'r hen gysgodfan a bod dim modd ei defnyddio. Roedd wedi derbyn pris gan ddau gontractwr ac nid oedd gwahaniaeth mawr ynddynt. Penderfynwyd ar y Contractor Meical Hughes. Roedd y Cynghorydd Daniel Williams am wneud ymholiad ynglŷn â'r amserlen i gwblhau'r gwaith.	<b>DW</b>
7.5	Ynglŷn â chyflwyno cysgodfa'n a'r draws y ffordd i Cwrt Menai, y Clerc i gael pris ar gysgodfan fel yr un sydd yn y Wern.	<b>CLERC</b>
<b>8.0</b>	<b>LLWYBRAU A LON LAS</b>	
8.1	Diolchwyd i'r Is-bwyllgor Llwybrau a Lon Las ar yr adroddiad ar y Llwybrau cyhoeddus. Rhoddwyd sylw i rai o'r llwybrau gan Gruff John oedd wedi cerdded a pharatoi rhan o'r adroddiad. Dywedodd y Cynghorwyr newydd nad oeddynt yn gyfarwydd ag enwau a lleoliadau'r llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd byddai noson cyflwyno "Induction" i'r aelodau newydd yn gyfle da i gyflwyno'r adroddiad a hefyd i edrych ar y map diffiniol ar gyfer yr ardal. Mae copi o'r adroddiad wedi ei anfon at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. Bydd y cyfarfod yma yn cymryd lle ar yr 22ain Hydref 2019 yn y Neuadd Goffa.	<b>NJ, DW, EW</b>
8.2	Llwybr Rowen - cafwyd sylw gan y Cynghorydd Nerys John bod ffens a'r ochr y llwybr wedi torri a bod gwaith cynnal ei angen, gofynnwyd a oedd angen cynnwys y llwybr hwn a'r waith cynnal a chadw'r cyngor Cymuned ar gyfer Llwybrau Cyhoeddus. Nid yw'r llwybr yn Lwybr Cyhoeddus felly nid oedd yn fater i'r Cyngor. Y Clerc i anfon at y Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.	<b>CLERC</b>
8.3	Mae ymholiad wedi ei dderbyn ynglŷn â chyflwyno fwy o gerrig mân a'r Lwybr Cerrig yr Afon. Roedd yr ymholiad yn dod gan berson sydd yn seiclo arno i gyrraedd y Lon Las. Roedd ychydig o ddryswch ynglŷn ag oedd hawl i seiclo ar y llwybr. Y penderfyniad oedd mai mater i'r tir feddiannwr oedd cyflwyno ychwaneg o gerrig ar y llwybr.	<b>CLERC</b>
8.4	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John ynglŷn a chyflwr cwlfer ar y Lon las ac os nad fyddai'r gorr dyfiant yn cael ei glirio bod risg i lifogydd ddigwydd a chael effaith ar yr Hen Tŷ'r heddlu. Y Clerc i anfon at Swyddog y Lon las.	<b>CLERC</b>
<b>9.0</b>	<b>MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA</b>	
<b>9.1</b>	Cafwyd adroddiad gan Nerys John bod y Bin Compost yn orlawn, fe gliriwyd ychydig ohono ganddi a dywedodd bod mater ynddo na fyddai yn troi yn gompost. Penderfynwyd byddai aros tan y gwanwyd i edrych faint fyddai'r gwastraff wedi marw i lawr cyn edrych a'r ffordd o'i symud oddi yno. Cafwyd sylw efallai byddai rhoi neges a'r "Facebook" yn	<b>CLERC</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	dweud ei fod a'r gael eu ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer potiau blodau'r Cyngor Cymuned.	
<b>9.2</b>	Mae teulu'r diweddar Emyr Roberts yn mynd i ymgymryd a'r gwaith cynnal i'r fainc er ei gof yn y fynwent.	
<b>10.0</b>	<b>PROSIECTAU</b>	
10.1	Anfonwyd gwybodaeth fan y Cynghorydd Eiliw Williams nad oedd wedi derbyn ymateb i'r cais am grant a hefyd bydd cais iI Comic Relief yn cael ei chyflwyno diwedd y Mis.	<b>EW</b>
<b>11.0</b>	<b>NEUADD GOFFA A CHLOC</b>	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams.	
11.2	Cais Cynllunio wedi ei wneud ar gyfer porth, gwaith rheolaeth adeiladu hefyd wedi ei wneud angen talu anfoneb Peter Wray i ddyddiad a hefyd talu i Gyngor Gwynedd ar gyfer y Rheoliadau Adeiladu. Cytunwyd i dalu'r anfonebau £138 Cyngor Gwynedd a £1015 Peter Wray. Mae'r broses tendro wedi cychwyn.	<b>DW</b>
11.3	Arolwg Asbestos wedi ei wneud - disgwyl adroddiad.	<b>DW</b>
11.4	CCTV - gwaith wedi cychwyn ac wrth symud ar y mater hwn cafwyd hyd broblemau gyda'r trydan. Mae angen gwneud gwaith ar y trydan, cyflwynwyd amcan bris oddi wrth Owen & Palmer am y gwaith angenrheidiol. Cytunwyd i symud ymlaen i gwblhau'r gwaith..	<b>DW</b>
11.5	Mae dau gabinet wedi ei brynu (£20)ar gyfer cadw lluniau'r diweddar Len Williams..Cytunwyd i dalu'r gost y cabinets.	
11.6	Cyfeiriodd y Cynghorydd Daniel Williams bod parti pen-blwydd 18 wedi bod yn y Neuadd dros y penwythnos a bod ychydig o drafferth wedi bod. Roedd y mater yma wedi tynnu sylw at dermau ac amodau hurio'r Neuadd. Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod ar y 15fed o Hydref yn y Neuadd goffa i ystyried y rhain.	<b>DW</b>
<b>12.0</b>	<b>GWEFAN</b>	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	<b>CLERC</b>
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>